# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn cyhoeddi: Awst 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2461A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol ac mae'n bwriadu cryfhau rhai agweddau ar ei reolaeth ariannol.


Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol ac mae'n bwriadu cryfhau rhai agweddau ar ei reolaeth ariannol 5

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 5

Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at ddatblygu strategaeth ariannol tymor canolig cynaliadwy 6

Mae gan y Cyngor lefel iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 7

Mae gan y Cyngor hanes da o ddarparu gwasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt 10

Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio 11

Mae sefyllfa hylifedd y Cyngor yn gadarn, gan ei alluogi i gyflawni ei ymrwymiadau ariannol pan ydynt yn dod yn ddyledus 13

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer 2020-21 yn ôl y sefyllfa ym mis Ionawr 2021. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

# Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol ac mae'n bwriadu cryfhau rhai agweddau ar ei reolaeth ariannol

## Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

7 Canfuom fel a ganlyn:

- fe wnaeth y Cyngor ysgwyddo gwariant ychwanegol a cholledion incwm sylweddol yn 2020-21 o ganlyniad i bandemig COVID. Mae'r mwyafrif o hyn wedi cael ei ad-dalu gan Lywodraeth Cymru ac felly nid yw wedi cael effaith niweidiol ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid grant ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID ar gyfer chwe mis cyntaf 2021-22, ond mae maint unrhyw gymorth ariannol pellach ac effeithiau hirdymor y pandemig ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn ansicr.
- fe wnaeth y Cyngor adnabod a gwneud darpariaeth ar gyfer nifer o effeithiau yn sgîl pandemig COVID wrth bennu ei gyllideb refeniw ar gyfer 2021-22 ac fe wnaeth hefyd gynnwys darpariaeth ddigwyddiadol o £2.1 miliwn ar gyfer pwysau cyffredinol o ran costau a chyflog a phensiynau.
- yn dilyn cytuno ar gyllideb refeniw 2021-22, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid grant pellach a oedd yn gysylltiedig â COVID ar ddiwedd mis Mawrth 2021, ac fe drosglwyddodd y Cyngor £2.5 miliwn i'w gronfa wrth gefn hapddigwyddiadau corfforaethol wedi'i chlustnodi ar gyfer blaenoriaethau corfforaethol mewn blynyddoedd yn y dyfodol gan gynnwys costau adfer o COVID.

**Arddangosyn 1: cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21**

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol y Cyngor a'r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19, a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol a wariodd y Cyngor o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £14.5 miliwn |

| | |
|---|---|
| Swm yr incwm a gollodd y Cyngor o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £9.5 miliwn |
| Swm y cyllid ychwanegol y bydd y Cyngor yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £23.6 miliwn |
| Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. | £0.47 miliwn |

Ffynhonnell: Adran Gyllid y Cyngor

## Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at ddatblygu strategaeth ariannol tymor canolig cynaliadwy

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

8 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.

Canfuom fel a ganlyn:


- yn 2019-20, fe wnaethom nodi bod y Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar gyllidebu blynyddol, nad oedd ganddo Gynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) wedi'i gyhoeddi a bod cyfle iddo gryfhau trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig a'u cysylltiadau â chyflawni ei amcanion corfforaethol.
- mae'r Cyngor yn diwygio'i gynllun ariannol yn flynyddol i helpu i oleuo'r broses flynyddol o bennu'r gyllideb. Mae'r cynllun yn nodi amcanestyniadau ariannol tymor canolig y Cyngor ac ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25, mae'r Cyngor yn rhagamcanu bwlch o ran cyllid o £49 miliwn (yn ychwanegol at y bwlch o £3.1 miliwn a ariennir o gronfeydd cyffredinol yn 2021-22).
- nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw newidiadau i'w ddull o ddatblygu ei amcanestyniadau ariannol tymor canolig, gan ei fod wedi blaenoriaethu ei ymateb i bandemig COVID. Mae ei amcanestyniadau'n dal i fod yn seiliedig ar dybiaethau darbodus ar gyfer chwyddiant a phwysau hysbys o ran costau ond dim ond rhai tybiaethau o ran newidiadau demograffig a phwysau'r galw am wasanaethau y maent yn eu hadlewyrchu. Mae'r Cyngor yn bwriadu

gwneud gwaith pellach i ddatblygu'r blaengynllun ariannol ac adnabod arbedion effeithlonrwydd cynaliadwy gyda golwg ar lunio CATC sy'n gysylltiedig ag amcanion corfforaethol y Cyngor erbyn hydref 2021.

- gan nad yw Llywodraeth Cymru'n darparu unrhyw asesiad o gyllid dangosol ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, nid yw amcanestyniadau'r Cyngor yn tybio unrhyw dwf yn y cyllid mewn setliadau yn y dyfodol. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Cyngor wedi cael setliadau mwy hael na'r disgwyl (4.5% yn 2020-21, 4.2% yn 2021-22) ac os bydd setliadau'n parhau i gynyddu mewn blynyddoedd yn y dyfodol, amcangyfrifir y bydd y bwlch ariannol yn lleihau o £2.3 miliwn am bob amrywiad o 1% yn y setliad.

**Arddangosyn 2: mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y pedair blynedd rhwng 2021-22 a 2024-25 o £52.4 miliwn**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y tair blynedd ganlynol.




Ffynhonnell: Adroddiad ar y gyllideb i'r Cabinet yn 2021-22

## Mae gan y Cyngor lefel iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

9 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell

cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

10 Canfuom fel a ganlyn:

- yn 2019-20, fe wnaethom nodi bod gan y Cyngor lefel iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac nad oedd hanes ganddo o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau ar y gyllideb refeniw.
- wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2020-21, roedd y Cyngor yn bwriadu defnyddio £1.65 miliwn o'i gronfeydd cyffredinol i fantoli ei gyllideb refeniw. Roedd y Cyngor yn rhagweld (ar 8 Mawrth 2021) y byddai ei gyllideb refeniw net yn tanwario ac, ar ôl cael grantiau sy'n gysylltiedig â COVID gan Lywodraeth Cymru, mae'n rhagfynegi y bydd y gronfa gyffredinol yn cynyddu £1.96 miliwn. Ers cyflwyno adroddiad ar y sefyllfa alldro a ragwelid i'r Aelodau, mae'r Cyngor wedi cael arian grant ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cynyddu balans ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ymhellach.
- mae cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021-22 wedi cael ei mantoli trwy ddefnyddio £3.1 miliwn o gronfeydd cyffredinol ac ar yr adeg y pennwyd y gyllideb, yr amcanestyniad oedd y byddai lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n £53.6 miliwn ar 31 Mawrth 2022. Mae'r Cyngor yn ystyried y bydd y gronfa gyffredinol, y rhagamcanir y bydd yn 5.3% o'i gyllideb refeniw net, yn aros ar lefel resymol ac nid yw'n cynllunio unrhyw ddefnydd pellach o'i gronfa gyffredinol i ariannu ei ddiffyg ariannol yn y tymor canolig.
- er y bydd y defnydd hwn o gronfeydd wrth gefn yn 2021-22 yn lleihau lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael i'r Cyngor, rhagfynegir o hyd y bydd y rhain yn aros ar lefel resymol.

**Arddangosyn 3: cost net gwasanaethau o'i gymharu â swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [2] | 283.3 | 281.8 | 296.1 | 307.0 | Amh. |


[2] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [3] | 51.3 | 59.5 | 61.4 | 59.1 | 58.1 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau [4] | 18.1% | 21.1% | 20.7% | 19.3% | N/A |

Ffynhonnell: Datganiad cyfrifon blynyddol

**Arddangosyn 4: cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau**

Mae'r Cyngor wedi cynnal lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy rhwng 18.1% ac 19.3% dros y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

[3] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[4] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

## Mae gan y Cyngor hanes da o ddarparu gwasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

11 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

12 Yn 2019-20, fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad bod gan y Cyngor hanes da o reolaeth ariannol a'i fod yn gyson wedi darparu ei wasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt, er bod gorwariannau mewn rhai meysydd yn cael eu gwrthbwyso gan danwariannau mewn meysydd eraill.

13 Fe wnaeth y Cyngor danwario'i gyllideb refeniw bob blwyddyn yn y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20 a throsglwyddo gwargedion bach i'w gronfeydd wrth gefn. Ar gyfer 2020-21, roedd adroddiad monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer mis 10 yn rhagfynegi tanwariant o £1 miliwn. Fodd bynnag, ers paratoi'r adroddiad hwn cafwyd arian grant ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi gwella'r sefyllfa alldro ymhellach.

14 Roedd ein hadroddiad yn 2019-20 yn cyfeirio at bwysau a gorwariannau o ran y gyllideb yn y gwasanaeth addysg (cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, lleoliadau y tu allan i'r sir), rhai meysydd o fewn y gwasanaethau cymdeithasol plant a'r gwasanaethau amgylcheddol (casglu gwastraff). Roedd adroddiad monitro'r gyllideb i'r Cabinet ym mis Mawrth 2021 yn nodi, ar gyfer 2020-21, amcanestyniad y byddai'r gwasanaeth addysg yn gorwario o £90,000, y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn tanwario o £1.15 miliwn ac y byddai gwasanaethau'r amgylchedd yn gorwario o £994,000. Mae prif achosion yr amrywiannau hyn yn gysylltiedig â COVID ac i'w priodoli i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru; mae'r sefyllfa sylfaenol yn aneglur mewn rhai meysydd.

**Arddangosyn 5: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant yng nghyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y pedair blynedd ddiwethaf a hefyd y flwyddyn hyd yma o ran y sefyllfa ar 8 Mawrth 2021.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau [5] | 270.90 | 274.68 | 282.86 | 288.17 | 304.08 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol £ miliynau [6] | 268.90 | 273.60 | 282.85 | 287.01 | 303.08 |
| Swm y gwarged/gorwariant ar y cyfan £ miliynau [7] | 2.00 | 1.08 | 0.01 | 1.16 | 1.00 |
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | 0.7% | 0.4% | 0% | 0.4% | 0.3% |

Ffynhonnell: adroddiadau alldro refeniw i'r Cabinet, adroddiad monitro'r gyllideb refeniw o ran y sefyllfa ar 31 Ionawr 2021 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 8 Mawrth 2021

## Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

15 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai

[5] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Adroddiadau alldro'r gyllideb y Cyngor i'r Cabinet

[6] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Adroddiadau alldro'r gyllideb y Cyngor i'r Cabinet

[7] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau’r Cyngor, neu o ddatrysiadau ‘byrdymor’ nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

## Yr hyn a ganfuom

16 Yn 2019-20, fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad bod y Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi cyflawni’r mwyafrif o’i arbedion wedi’u cynllunio. Er bod gan y Cyngor hanes o fantoli ei gyllidebau, nid oedd wedi cyflawni’r holl arbedion penodol a gynlluniwyd ganddo ac roedd tanwariannau yn y gyllideb wedi cael eu defnyddio i wneud iawn am y diffyg.

17 Mae’r Cyngor wedi gwneud arbedion o £29.09 miliwn rhwng 2016-17 a 2019-20 (**Arddangosyn 6**). Yn 2019-20, fe wnaeth y Cyngor fantoli ei gyllideb trwy arbedion wedi’u cynllunio o £5.8 miliwn i fynd i’r afael â’i fwlch o ran cyllid a oedd yn cael ei ragamcanu. Yn 2020-21, pennwyd targed o £1.97 miliwn ar gyfer hyn.

18 Nid yw cyflawni arbedion yn cael ei fonitro ar wahân – mae arbedion unigol y cytunwyd arnynt yn cael eu tynnu allan o gyllidebau ar ddechrau'r flwyddyn ac yn cael eu monitro trwy’r broses o fonitro’r gyllideb. Tybir bod y rhan fwyaf o’r arbedion yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyflawni oni bai bod hynny’n cael ei amlygu fel amrywiant sylweddol yn adroddiad monitro’r gyllideb a gyflwynir yn chwarterol i’r Aelodau. Mae’r sefyllfa alldro ar gyfer 2019-20 a’r sefyllfa a ragamcanir ar gyfer 2020-21 yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni’r rhan fwyaf o’i arbedion wedi’u cynllunio.

19 Yn gyffredin â chynghorau eraill, mae adnabod a chyflawni arbedion yn dod yn fwy o her. Mae ymateb i bandemig COVID wedi lleihau cyfleoedd y Cyngor i adnabod newidiadau i wasanaethau ac, ar gyfer 2021-22, pennwyd targed arbedion o £135,000 yn unig. Mae’r Cyngor yn bwriadu mantoli ei gyllideb trwy ddefnyddio £3.1 miliwn o gronfeydd cyffredinol.

20 Mae’r Cyngor yn cydnabod nad yw defnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli ei gyllideb yn gynaliadwy a bydd gwaith pellach i ddiweddaru’r CATC hyd at 2024-25 yn canolbwyntio ar adnabod mesurau effeithlonrwydd i unioni’r diffyg o ran cyllid o £49 miliwn a ragamcanir dros y tair blynedd nesaf, sy’n ychwanegol at y bwlch o £3.1 miliwn a ariennir o’r cronfeydd cyffredinol yn 2021-22.

**Arddangosyn 6: arbedion a gyflawnwyd fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau arbedion rhwng 2016-17 a 2019-20 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd yn ogystal ag amcangyfrifon ar gyfer 2020-21.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio mewn £ miliynau | 11.55 | 5.78 | 6.79 | 5.80 | 1.97 |
| Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau | 10.72 | 5.78 | 5.06 | 5.33 | 1.97 |
| Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd mewn £ miliynau | 0.83 | 0.00 | 1.73 | 0.47 | 0.00 |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd | 93% | 100% | 75% | 92% | 100% |

Ffynhonnell: adroddiadau ar y gyllideb ac adroddiadau alldro blynyddol i'r Cabinet

## Mae sefyllfa hylifedd y Cyngor yn gadarn, gan ei alluogi i gyflawni ei ymrwymiadau ariannol pan ydynt yn dod yn ddyledus

### Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

21 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

22 Canfuom fel a ganlyn:

- mae sefyllfa'r Cyngor o ran ei hylifedd wedi bod yn weddol sefydlog dros y cyfnod rhwng 2015-16 a 2018-19, gan gynyddu i 1.9 yn 2019-20. Mae hyn yn golygu bod asedau cyfredol yn werth bron dwywaith yn fwy na rhwymedigaethau cyfredol ac yn dynodi bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei ymrwymiadau ariannol pan fyddant yn dod yn ddyledus heb yr angen am fenthyciadau byrdymor.
- mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull darbodus o reoli trysorlys, gan flaenoriaethu risg isel cyn adenillion ar fuddsoddiadau a buddsoddi arian sydd dros ben dim ond pan fo hylifedd digonol yn cael ei gynnal.
- fe gynyddodd lefel buddsoddiadau byrdymor yn sylweddol erbyn 31 Mawrth 2021, a fydd yn arwain at gynnydd pellach yn y gymhareb hylifedd i 2.3 yn ôl yr amcangyfrif. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd lefel buddsoddiadau byrdymor a'i gymhareb hylifedd amcangyfrifedig yn gostwng i lefelau hanesyddol yn 2021-22.
- mae cymhareb hylifedd y Cyngor yn hanesyddol wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau Cymru, sy'n dynodi ei fod mewn sefyllfa ariannol gref mewn cymhariaeth.

**Arddangosyn 7: cymhareb hylifedd (cyfalaf gweithio) 2015-16 i 2019-20**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol £ miliynau [8] | 114.7 | 110.9 | 110.9 | 95.2 | 107.4 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol £ miliynau [9] | 72.2 | 75.3 | 73.4 | 61.5 | 57.4 |
| Cymhareb Hylifedd | 1.6 | 1.5 | 1.5 | 1.5 | 1.9 |

Ffynhonnell: Datganiad cyfrifon blynyddol

[8] Asedau Cyfredol: maent yn cynnwys Buddsoddiadau Byrdymor; Asedau a ddelir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Byrdymor; ac Arian Parod a'i gyfwerth. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[9] Rhwymedigaethau Cyfredol: maent yn cynnwys Benthyciadau Byrdymor; Credydwyr Byrdymor; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.